

Pentref Gwyliau Bluestone yn Ymuno â'r Bartneriaeth

Yn ddiweddar, daeth Pentref Gwyliau Parc Cenedlaethol Bluestone yn aelod diweddaraf Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. Mae'r pentref gwyliau wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, ac yn ymestyn dros tua 500 erw o goedwig, glaswelltir a chynefinoedd dŵr croyw.

Dywedodd Ged Davies, Rheolwr Cynaliadwyedd y Pentref Gwyliau 'Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein cynllun rheoli rhywogaethau a chynefinoedd er mwyn sicrhau y caiff y bywyd gwyllt ar y safle, sydd mor bwysig i ni a'n hymwelwyr, ei ddiogelu a'i wella ar gyfer y dyfodol.'

Mae'r Bartneriaeth yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Bluestone er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl a bywyd gwyllt ar y safle. Os ydych yn berchen ar dir neu'n rheoli tir a hoffech gymryd rhan mewn gwaith cadwraeth natur, cysylltwch â'r bartneriaeth!

Ant Rogers

Partneriaeth

Bioamrywiaeth Sir Benfro

bluestone
national park resort

Cricsyn Cennog ar Draeth Marloes

Mae'r cricsyn cennog (*Pseudomogoplistes vicentae*) ymhlith y rhywogaethau mwyaf prin sydd wedi'i astudio leiaf ym maes Orthoptera (sioncod y gwair a chriciaid) y DU. Mae'n gricsyn anghyffredin iawn, am

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyrol 14 Rhifyn 1
Gwanwyn 2017

Yn y rhifyn hwn

Pentref Gwyliau Bluestone yn Ymuno â'r Bartneriaeth
Tudalen 1



Cricsyn Cennog ar Draeth Marloes
Tudalennau 1—3



CGBGC yn Dathlu 10 Mlynedd!
Tudalennau 3—4



Parc Cenedlaethol yn Helpu gyda Rheoli dŵl Wair
Tudalennau 4—5

Dyfrgwn yn ymgartrefu
Tudalennau 6—7

Ymweliad gan Brosiect Lost and Found Kew
Tudalen 7

Cyllid Ewropeaidd ar gael ar gyfer Prosiectau
Amgylcheddol
Tudalen 8



Digwyddiad Gwyllo Morfilod a Dolffiniaid Cenedlaethol
Tudalennau 8—9

Logo Newydd ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus
Tudalen 9



Swyddog Cofrestru Tir Comin Newydd
Tudalen 10

cadwch keep
gymru wales
daclus tidy

Adroddiad yn tynnu sylw at lwyddiant yr
Awdurdod y Parc
Tudalen 10



Digwyddiadau
Tudalen 11

Manylion Cysylltu
Tudalen 12

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 1



ei fod yn byw ar draethau ymysg y graean bras ac o dan gerrig mawr. Ar hyn o bryd, mae'r cricsyn cennog ond yn hysbys mewn pedwar lleoliad yn y DU, ac mae dau ohonynt (Traeth Marloes a bae Dale) yn Sir Benfro.

Rwyf wedi bod yn astudio'r rhywogaeth ddirgel ar Draeth Marloes dros y tair blynedd diwethaf. Dechreuais drwy gasglu data ar y cylch bywyd, sef rhywbeth nad oedd llawer o wybodaeth amdano. Roedd hyn yn cynnwys ymweld â Thraeth Marloes bob tymor i asesu camau cylch bywyd a oedd yn bresennol, yn ogystal â magu unigolion yn y labordy, o wyau i griciaid llawndwf, ym Mhrifysgol Derby. Hyd yn hyn, dengys y canlyniadau fod yn rhaid i gricsyn cennog oroesi dau aeaf yn ei fywyd er mwyn cyrraedd eu llawn dwf. Mae'r wyau, a gaiff eu dodwy yn yr haf, yn cymryd blwyddyn i ddeor. Bydd y nymffau ond wedi tyfu i hanner eu maint erbyn dechrau'r gaeaf nesaf, a byddant yn cyrraedd eu llawn dwf yn ystod yr haf dilynol. Gall rhai criciaid benyw hyd yn oed oroesi trydydd gaeaf yn llawndwf.

Gall goroesi gaeaf mewn graean bras sy'n symud o hyd yn dipyn o gamp.



Cricsyn Cennog
Llun: Alex Hyde



Bues i'n ymweld â safle Traeth Marloes am y tro cyntaf yn y gwanwyn ar ôl stormydd gwael gaeaf 2013/14, a wnaeth achosi difrod mawr ar hyd arfordir Cymru. Roeddwn yn amau y byddwn yn dod o hyd i unrhyw griciaid cennog o gwbl, ac ar ôl hanner awr o chwilio, heb lwyddiant, roeddwn ar fin rhoi'r ffidl yn y to pan wnaeth fy mab, Gabriel (a oedd yn saith oed ar y pryd) ddatgan ei fod wedi dod o hyd i dri o dan un garreg! Roedd y criciaid wedi goroesi. Ar ôl chwilio'r cyffiniau agos, roedd yn amlwg bod poblogaeth eithaf mawr yno. Fodd bynnag, ar ôl ymweld â'r un man sawl tro dros y ddwy flynedd ddilynol, sylwais fod lleihad dramatig yn nifer y boblogaeth a oedd yn cyfanheddu yn y llethr penodol hwnnw o greigiau. Roedd hyn yn fwyaf amlwg ar ôl stormydd mynych gaeaf 2015/16. Roedd y llethr o greigiau wedi'i newid yn llwyr a'u gwastadu ac roeddwn ond yn gallu dod o hyd i nifer fach o griciaid.



Gwnaeth hyn fy sbarduno i gynnal arolwg mwy manwl o griciaid cennog, gan gwmpasu Traeth Marloes ar ei hyd ym mis Awst 2016.

Roedd fy nhasg o arolygu Traeth Marloes yn eithaf hawdd o ganlyniad i adroddiad gwyh gan Jon Hudson o Cyfoeth Naturiol Cymru, lle y cyhoeddwyd canlyniadau ei arolwg trylwyr o gynefinoedd a phoblogaethau criciaid cennog ar hyd y traeth yn 2006. Gan ddefnyddio dyfais GPS roeddwn yn gallu nodi mannau samplu'r cricsyn cennog a nodwyd yn adroddiad Jon ac ailadrodd ei ddulliau arolygu mor agos â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys mynd ati i chwilio â llaw mewn cyfnodau o 15 munud, ac yn ystod y cyfnodau hynny ceisiais, yn llythrennol, droi pob carreg, gan ddefnyddio trap (cwpanau peint plastig llawn bisgedi cath a'u claddu hyd at ymyl y graean bras). Cawsant eu gorchuddio gan garreg fawr gyda chymorth pedair carreg fach a'u gadael dros nos. Dengys y canlyniadau, rwyf yn bwriadu eu cyhoeddi ynghyd ag arolygon o safleoedd criciaid cennog eraill yn y DU, fod poblogaeth iach ar Draeth Marloes o hyd; roedd nifer y criciaid unigol y daethpwyd o hyd iddynt drwy ddefnyddio dulliau trap a chwilio â llaw yn yr arolwg presennol, yn debyg i'r niferoedd y daethpwyd Jon Hudson o hyd iddynt ddeng mlynedd ynghynt.

Fodd bynnag, nid oedd y newyddion i gyd yn gadarnhaol: mae'r criciaid cennog a'u cynefin o raeon bras wedi diflannu'n llwyr bron o ardal fawr lle buont ynghynt ar hyd pen dwyreiniol y traeth. Gan gymharu'r lluniau a

dynnodd Jon o gynefin y cricsyn cennog ar hyd y traeth yn 2006 â'r lluniau a dynnwyd eleni, mae colled dramatig y llethrau graean bras a cherrig ar waelod y clogwyn yn amlwg iawn. Mae hyn yn golygu bod y brif boblogaeth ar Draeth Marloes bellach yn gyfyngedig i ran o'r traeth sydd ond 200 metr o hyd. Fodd bynnag, rwy'n dal i fod yn hyderus y bydd y cricsyn cennog yn goroesi dros yr hirdymor. Mae'n amlwg ei fod wedi addasu'n dda i'w gynefin garw braidd. Wrth astudio'r cylch bywyd, nodais fod yn well gan y criciaid benyw dodwy eu hwyau mewn broc môr. Mae hyn yn cyflwyno posibilrwydd diddorol iawn, sef, efallai y gallai wyau sy'n deor dros y gaeaf oroesi stormydd y gaeaf drwy "rafftio". At hynny, mae'n ddigon posibl bod y rhywogaeth wedi cael ei thangofnodi yn Sir Benfro a gweddill y DU. Wedi'r cyfan, dim ond yn 1999 y daethpwyd o hyd i'r boblogaeth ar Draeth Marloes. Efallai y bydd arolygon ar leoliadau addas eraill ar hyd arfordir Sir Benfro yn arwain at gofnodion newydd.

Yr Athro Karim Vahed

Prifysgol Derby



CGBGC yn Dathlu 10 Mlynedd!

Eleni, mae Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (CGBGC) yn dathlu 10 mlynedd o weithredu fel Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Leol (LERC). Yn y cyfnod hwnnw, mae cronfa ddata'r rhywogaethau wedi tyfu i fwy na



2 filiwn o gofnodion ac rydym wedi cynnal mwy na mil o ymholiadau data. Mae gwaith prosiect wedi amrywio o ddefnyddio data i fodelu GIS mwy cymhleth ac mae ein cymorth i'r gymuned sy'n cofnodi yn amrywio o fforwm blynyddol i gofnodwyr i ddiwrnodau cofnodi a chyfleoedd hyfforddi.

Rydym yn ddyledus iawn i'r rhwydwaith o gofnodwyr gwirfoddol rhanbarthol sy'n rhannu eu cofnodion o rywogaethau gyda ni, ac yn benodol, ymdrechion cofnodwyr y Sir y mae eu hymrwymiad a'u sylw i fanylder yn sail i bopeth a wnawn. Yn yr un modd, ni fyddwn yma heb gymorth sefydliadau partner a hoffem ddiolch i'n partneriaid cyllid am eu cymorth parhaus. Mae'r rhain a nifer o bobl eraill wedi cyfrannu at lwyddiant CGBGC, gan gynnwys ein staff ymrwymedig presennol a chyn-aelodau o staff, ein gwirfoddolwyr a'n Cyfarwyddwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi ac yn parhau i roi o'u hamser, ym mha fodd bynnag.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae CGBGC wedi gweithio'n agos gyda'r tair LERC arall yng Nghymru a gyda'n gilydd, rydym yn rhannu data ar gronfa ddata gyfunol sy'n cynnwys tua 9 miliwn o gofnodion, rhywbeth unigryw yn y DU. Gall y cyhoedd a'n partneriaid weld y data drwy ddatblygiad ar y cyd arall sef llwyfan ar-lein o'r enw Aderyn, sy'n cynnig ffyrdd wedi'u teilwra o chwilio ein data, rhywbeth unigryw arall yn y DU. Edrychwn ymlaen at gofnodi cymuned Gorllewin Cymru dros y 10 mlynedd nesaf, a byddwn yn parhau i chwilio



am ffyrdd arloesol o sicrhau y caiff gwneuthurwyr penderfyniadau y gwerth gorau posibl o'r data bioamrywiaeth a ddelir gennym.

Byddwn yn cynnal ein Fforwm i Gofnodwyr i dathlu 10 Mlynedd ddydd Sadwrn 4 Mawrth. Dewch i ymuno â ni am gyfres o sgysiau ac arddangosiadau diddorol a sgwrsio gyda phobl o'r un meddylfryd dros ginio am ddim.

Colin Russell
CGBGC



Parc Cenedlaethol yn Helpu Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Rheoli dôl Wair

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi helpu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i droi dalen newydd wrth iddo weithio i drawsnewid rhai o'r ardaloedd o laswellt o amgylch swyddfeydd



Llys Afon ganddo yn Hwlffordd yn ddôl o flodau gwyllt.

Arferai'r glaswellt o amgylch yr adeiladau gael ei dorri'n rheolaidd ac nid oedd yno lawer o ddi-ddordeb o ran bioamrywiaeth, ond cafodd y lawntiau eu torri'n daclus am y tro olaf y llynedd ac wedyn gwasgarwyd hadau blodau gwyllt yno.

Cafodd yr ardal dyfu yn ystod haf 2016, gan ddenu gwenyn a glöynnod byw at yr arddangosfa o flodau gwyllt. Ymwelodd Wardeiniaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol â'r safle ym mis Hydref i dorri a belio cnwd y flwyddyn gyntaf ac i roi cychwyn i'r rheolaeth ar y ddôl o wair.



Dywedodd Prif Weithredwr Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Tegryn Jones: "Mae'r Awdurdod wedi gweithredu cynllun tebyg yn ei bencadlys ym Mharc Llanion yn Noc Penfro ers 2013, gydag amrywiaeth gyfoethog o blanhigion a glaswelltau cyfeillgar i bryfed peillio ac adar yn tyfu yno, gan gynnwys briallu Mair sawrus, llygad y dydd, meillion coch, rhosod gwyllt, a thegeirianau hyd yn oed.

"Un o'n prif amcanion oedd gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a gyda dirywiad wedi'i gofnodi mewn cynefinoedd cyfeillgar i bryfed peillio yn y DU, mae'n bwysig datblygu safleoedd sydd â photensial ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth."

Ychwanegodd Uwch Swyddog Cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru, Mary Chadwick: "Rydyn ni wedi bod wrth ein bodd gyda'r cynnydd hyd yma mewn trawsnewid y lawnt hon a oedd yn llawn glaswellt yn ddôl o flodau er budd peillwyr ac amrywiaeth lawn o fywyd gwyllt.

"Rydyn ni'n ddyledus iawn i staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol am dorri a belio'r glaswellt, i baratoi'r tir ar gyfer hau hadau blodau gwyllt. Rydyn ni wedi hau hadau a gasglwyd o safle lleol, gan gynnwys y blodyn lled-barasitig, y *gribell felen*, sy'n helpu i gael gwared ar laswelltau cryf.

"Mae belio'r glaswellt yn cael gwared ar faethynnau o'r system, sy'n lleihau grym y glaswelltau ac yn galluogi i flodau ffynnu. Byddai CNC yn fwy na pharod i gynghori pobl eraill ynghylch cynyddu bioamrywiaeth ardaloedd o laswelltir o amgylch swyddfeydd ac unedau diwydiannol."

Medi George

Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro



Dyfrgwn yn ymgartrefu

Mae'r wâl artiffisial ar gyfer dyfrgwn sydd wedi'i gosod yng ngwarchodfa natur Llyn y Felin Uchaf Penfro yn ddiweddar wedi denu rhai dyfrgwn yn barod. Cafodd y strwythur, a ariennir drwy grant Arwyr Bywyd Gwyllt Cymru gan y Co-op, ei osod ym mis Ebrill 2016 gyda chymorth gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn lleol ynghanol ardal llawn helyg a gwern wrth ymyl y corslwyn ac afon Sir Benfro, sy'n llifo drwy'r warchodfa.

Bu Dave Levell yn ymweld â'r ardal yn ddiweddar a dangosodd un o wirfoddolwyr brwd y warchodfa dystiolaeth glir o bresenoldeb dyfrgwn iddo drwy ddangos olion a marciau yn arwain at y wâl ac oddi yno yn ogystal â nodi llawer o faw dyfrgwn gerllaw. Mae'n ddigon hysbys bod gan safle Llyn y Felin Penfro un o'r poblogaethau mwyaf o ddyfrgwn trefol yng Nghymru a'u bod yn ymweld â gwarchodfa natur Llyn y Felin Uchaf bron bob dydd.



Adeiladu'r Wâl



Y Wâl orffenedig

Dywedodd Nathan Walton, Swyddog Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Benfro "mae wir yn newyddion da bod dyfrgwn yn byw yn y warchodfa, yn hytrach na'u bod ond yn galw heibio. Ni chaniateir mynediad cyhoeddus i'r warchodfa sy'n allweddol i sicrhau ardaloedd da o gynefinoedd heb unrhyw darfu ac amodau delfrydol ar gyfer dyfrgwn. Rwy'n falch iawn."

Y dyfrgi yw un o'n mamaliaid mwyaf carismatig ac anodd ei weld. Mae'n ymddangos gyda'r nos ac mae'n anifail eithaf swil, er y gellir cael ei weld yn eithaf clir yn ystod y dydd yn y Llyn Canol a'r Llyn Isaf. Mae hefyd yn un o lwyddiannau'r warchodfa: yn dilyn gostyngiad trychinebus yn ystod y 1950au a'r 1960au, mae bellach niferoedd cadarnhaol o boblogaethau o ddyfrgwn ledled Cymru. Mae hyn o ganlyniad i waharddiad ar y plaeiddiaid mwyaf niweidiol, a'r gwaith parhaus o ddiogelu eu cynefinoedd ar lan y dŵr.

Mae'r dyfrgi yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS). Mae'n anghyfreithlon difrodi neu ddinistrio safle lle mae dyfrwn yn magu neu'n gorffwys (gwâl neu lwth), neu ddal, lladd, anafu neu aflonyddu ar ddyfrgi yn fwriadol.



Yn 2015, rhoddodd busnesau Co-operative Food yr arian a wnaed o godi tâl o 5c am fagiau i gefnogi prosiectau bywyd gwyllt ledled Cymru. Mae'r chwe Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng Nghymru yn defnyddio'r arian hwn i achub ein bywyd gwyllt a'n mannau gwyllt sydd yn y perygl mwyaf er mwyn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

Nathan Walton

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
De a Gorllewin Cymru



Ymweliad gan Brosiect Lost and Found Kew

Yn ddiweddar, bu tîm o fycolegwyr yn ymweld â Sir Benfro i chwilio am ffyngau a chen y mae cofnod ohonynt yn brin iawn neu nad ydynt wedi'u deall yn dda. Trefnwyd yr ymweliad fel rhan o raglen prosiect Lost and Found Fungi a gynhelir gan wyddonwyr yng Ngerddi Botaneg Brenhinol, Kew, ac wedi'i ariannu gan Sefydliad Esmée Fairburn.

Roedd y grŵp o Kew yn cynnwys Paul Cannon, Martyn Ainsworth a Brian Douglas a chafodd ei leoli yng Nghanolfan Ystangbwll - lleoliad delfrydol ar gyfer cofnodi ar safle'r Warchodfa Natur Genedlaethol.



Sesiwn Briffio Grŵp

Lansiwyd y rhaglen gyda diwrnod llawn o hyfforddiant a mentora a gafodd llawer o gefnogaeth gan drigolion lleol sy'n frwd dros ffyngau a chen gan gynnwys aelodau o gynllun Plantlife Lichen Apprentice. Gwnaeth y digwyddiad ddenu cyfranogwyr o bob rhan o Gymru gan gynnwys Anita Daimond, Swyddog Datblygu Capiâu Cwyr ar gyfer prosiect Plantlife a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef "Capiâu Cwyr Cymru".



Menig Collen

Roedd uchafbwyntiau'r ymweliad yn cynnwys dod o hyd i'r mathau canlynol o ffyngau a chen yn Ystangbwll, sef *Enroloma bloxamii* (Tagell binc las fawr), *Geoglossum atropurpureum* (Tafod daear dulas) a *Hypocreopsis rhododendri* (Menig collen), y mae pob un ohonynt yn fathau sy'n peri pryder o ran cadwraeth yn y DU. Gwnaeth Dave Levell gwblhau'r casgliad drwy ddod ag un o rywogaethau targed prosiect Lost and Found, sef *Entyloma eryngii-maritimi* parddu, ar ddarn o Fôr-gelynnen o Freshwater West - darganfyddiad gwych.

David Harries

Rhwydwaith Cofnodi
Ffyngau Sir Benfro



Cyllid Ewropeaidd ar gael ar gyfer Prosiectau Amgylcheddol

Nod cynllun LEADER Arwain Sir Benfro yw cefnogi syniadau newydd sy'n helpu i wella eich cymuned. Dylai prosiectau sydd wedi'u hariannu gan LEADER adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd lleol. Gallai hyn olygu, er enghraifft, gwneud defnydd gwell o adnoddau naturiol lleol a chymunedol, cefnogi mentrau amgylcheddol cymunedol, neu ddatblygu sgiliau crefft amaethyddol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am LEADER, sy'n rhan o Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 - 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac Arwain Sir Benfro, yn <http://www.arwainsirbenfro.cymru>. Os oes gennych syniad yr hoffech ei drafod, cysylltwch â Cris Tomos yn **PLANED** ar **01834 860965** leader@planed.org.uk

Mae rhai materion ac uchelgeisiau amgylcheddol lleol, a nodwyd gan gymunedau Sir Benfro fel rhan o'u gwaith cynllunio gweithredu diweddar, wedi cynnwys: yr angen am fwy o lwybrau cerdded, llwybrau beicio a llwybrau hygyrch aml-ddefnydd; datblygu rhandiroedd a gerddi cymunedol; cynnal a chadw gwrychoedd; dileu rhywogaethau ymledol anfrodorol; datblygu perllannau a choetiroedd cymunedol a dathlu cynnyrch lleol.

Mae Arwain Sir Benfro yn ystyried y

diddordeb sydd mewn ailsefydlu Rhwydwaith Gwerthfawrogi'r Amgylchedd Sir Benfro. Mae hyn yn dwyn grwpiau amgylcheddol sydd wedi'u harwain gan gymunedau ynghyd er mwyn eu helpu i godi ymwybyddiaeth o'u gweithgareddau ac ymgysylltu â'r cyfranogwyr newydd drwy sgysiau, sesiynau a gweithdai ymarferol sydd wedi'u cynllunio er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a'r uchelgeisiau a amlinellir uchod.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am y rhwydwaith, cysylltwch â Karen Scott yn **PLANED** ar **01834 860965**

karens@planed.org.uk

Karen Scott
PLANED



Digwyddiad Gwyllo Morfilod a Dolffiniaid Cenedlaethol

Bob blwyddyn, mae Sefydliad Gwyllo'r Môr yn arwain digwyddiad dros y DU gyfan i gofnodi'r morfilod, y dolffiniaid a'r llamidyddion o amgylch y DU dros gyfnod o 9 diwrnod. Gall unrhyw un gymryd rhan, ac fe anogir pawb i wneud hynny! Bydd yr adroddiad llawn ar gael ar ddechrau 2017. Gallwch gadw llygad ar gyfrifon



Dolffiniaid â thrwyn byr cyffredin



cyfryngau cymdeithasol a gwefan Sefydliad Gwyllo'r Môr a chael y wybodaeth ddiweddaraf. Yn y cyfamser, dyma grynodedb ragarweiniol o'r manau oddi ar Sir Benfro lle gwelwyd y morfilod a'r dolffiniaid dan sylw yn ystod y digwyddiad yn 2016.

Er mai llamidyddion yr harbwr yw'r rhywogaeth a welir amlaf o amgylch y DU, mae'n debyg bod y dolffin cyffredin â thrwyn byr yn ymddangos yn amlach yn ne-orllewin Cymru, er gallai hyn fod oherwydd diffyg ymdrech o ran cofnodi yn hytrach na'r ffigurau gwirioneddol. Cofnodwyd y rhywogaeth liwgar hon o ddolffin 16 gwaith yn y Sir mewn 9 diwrnod yn unig, gydag uchafswm o 30 unigolion ar y tro. Y cofnod mwyaf aml nesaf oedd dolffiniaid llwyd, a wnaeth ymddangos o Swnt Dewi i'r Dyfnfor Celtaidd. Dim ond pum gwaith y cofnodwyd y llamidyddion, er y gwelwyd saith oddi ar Ynys Dewi. Gwelwyd dolffiniaid trwynbwl ar dri achlysur, yn ogystal â morfilod pigfain.

At ei gilydd, cafodd y rhywogaethau dan sylw eu gweld 'yn answyddogol' bron i 40 o weithiau ac nid yw hynny'n cynnwys cofnodion y timau gwyllo dynodedig a sefydlwyd fel rhan o'r Digwyddiad Gwyllo Morfilod a Dolffiniaid Cenedlaethol. Aeth pobl ati hefyd i gofnodi'r hyn a welsant ar y môr ac ar ben clogwyni. I gael y cofnodion hynny, bydd yn rhaid i chi edrych ar ein hadroddiad llawn ar-lein yn www.seawatchfoundation.org.uk. I gymryd rhan, ewch i www.seawatchfoundation.org.uk/nwdw-2017 a nodwch y dyddiadau rhwng 29 Gorffennaf a 6 Awst yn eich dyddiadur!

Kathy James
Sefydliad Gwyllo'r Môr

Logo Newydd ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus

Mae logo newydd Cadwch Gymru'n Daclus wedi'i ddatblygu i adlewyrchu'r holl waith a wnaed gan y sefydliad. Nid yw'n ymwneud â sbwriel yn unig bellach, mae Cadwch Gymru'n Daclus yn elusen sydd â chylch gwaith amrywiol iawn. Rydym yn lloio'r llywodraeth; rydym yn dylanwadu ar gymunedau; rydym yn addysgu ysgolion; rydym yn gofalu am afonydd, traethau a manau gwyrdd; rydym yn gofalu am Gymru ac yn awyddus i'w diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Zöe Abbott

Cadwch Gymru'n Daclus



Tudalen 9



Swyddog Cofrestru Tir Comin Newydd

Shwmae! Fy enw i yw Jim Dunckley, ac yn ddiweddar, rwyf wedi ymgymryd â rôl Swyddog Cofrestru Tir Comin yng Nghyngor Sir Penfro. Serch hynny, mae fy hyfforddiant a'm cefndir i gyd ym maes Cadwraeth ac rwyf wedi bod â diddordeb brwd yng nghefn gwlad a bywyd gwyllt godidog Prydain ers pan oeddwn yn ifanc iawn. Cyn ymgymryd â'r swydd hon, bues i'n dal swydd Cofrestru Tir Comin debyg yng Ngheredigion lle bues i'n gweithio'n agos gyda pherchnogion tir a rhanddeiliaid allweddol a oedd yn canolbwyntio ar gadwraeth, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ac, weithiau, elusennau cadwraethol annibynnol. Yn fwy diweddar, rwyf wedi gweithio gyda PONT sy'n gwneud gwaith gwych o ran hwyluso pori cadwraethol ar ein tiroedd comin.

Mae Tir Comin yn cyfrif am 8% o dir Cymru, ac yn rhan allweddol o dreftadaeth Cymru, ac wrth gwrs, mae llawer o'n tiroedd comin wedi'u dynodi ar gyfer eu gwerth cadwraethol uchel. Maent yn aml yn cynnal cynefinoedd bregus ac unigryw, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Bartneriaeth a'i chynorthwyo mewn unrhyw ffordd y gallaf i ddiogelu a hyrwyddo ein tir comin gwerthfawr a'n treftadaeth ecolegol ehangach yn y dyfodol.

Jim Dunckley
Swyddog Cofrestru
Tir Comin



Adroddiad yn tynnu sylw at llwyddiant yr Awdurdod y Parc

Ymgysylltodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn llwyddiannus â mwy na 6,000 o bobl a oedd yn anodd eu cyrraedd a bu ynghlwm â 2,155 arall drwy'i weithgareddau a oedd yn gysylltiedig ag iechyd yn ystod 2014-15, yn ôl ei Adroddiad Gwella Blynnyddol diweddaraf. Yn ogystal, roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref, yn nodi bod canran o 94% o'r safleoedd y mae'r Awdurdod yn eu rheoli mewn cyflwr ecolegol 'da' neu'n 'gwella', ac ni ystyrir bod unrhyw un o'r safleoedd a adolygwyd yn methu.

Yn ogystal, tynnodd y ddogfen sylw at y ffaith bod nifer y bobl sy'n defnyddio'r llwybrau troed yn ystod 2014-15 yn 30% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, yn ôl y mesuryddion cerdded ar y rhwydwaith o hawliau tramwy sy'n cael eu cynnal gan Awdurdod y Parc, yn cynnwys Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Roedd canran rhwydwaith y llwybr troed a oedd ar agor ac yn hawdd ei gyrraedd yn 85%, ffigwr sy'n 30% yn uwch na'r cyfartaledd a amcangyfrifwyd ar gyfer Cymru a 12% yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Lloegr.

Medi George
Awdurdod Parc
Cenedlaethol Arfordir
Penfro



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Month***



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
Ionawr 28ain— 30ain	Ymgyrch Fawr Gwyllo Adar yn yr Ardd	Cyfrwch y bywyd gwyllt sy'n cyfri arnoch chi, gyda'r arolwg blyneddol hwn gan y RSPB. Lawrlwythwch eich pecyn yma: https://ww2.rspb.org.uk/get-involved/activities/birdwatch	RSPB
Chwefror 1af 19:30	Sgwrs ar y Ffwlbarth gyda Jenny MacPhearson	Neuadd yr Eglwys Babyddol, Aberteifi	Margaret Powell 1239 621512 margaretpowellcal@hotmail.com
Chwefror 13eg 19:30	Sgwrs ar y Wenynen Wylt gyda Sinead Lynch	Canolfan Gymunedol Cashfield, Hwlfordd	John Steer 01646 278966 biojohn@tiscali.co.uk
Chwefror 21ain 19:30	Rhaglen Adfer Bele'r Coed	Ymunwch â Grŵp De Sir Benfro am sgwrs dan arweiniad Dr Jenny Macpherson a fydd yn ein goleuo ynglŷn â rhaglen adfer Bele'r Coed a'i gwaith gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent. Canolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Hwlfordd.	Christine 01646 673912 chrisiejones58@gmail.com
Mawrth 4ydd	10 ^{fed} Pen- blwydd Fforwm Cofnodwyr WWBIC.	Dewch i ymuno â ni am gyfres o anerchiadau ac arddangosfeydd diddorol a chyfle i sgwrsio gyda phobl o'r un anian dros ginio di-dâl.	Colin Russell 01994 241468
Mawrth 21ain 19:30	Ffyngau yn Sir Benfro	Ymunwch â Grŵp De Sir Benfro a fydd yn cynnal sgwrs gan David Harries ynglŷn â Ffyngau yn Sir Benfro ac ym mha gynefinoedd y cewch hyd iddyn nhw. Canolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Christine 01646 673912 chrisiejones58@gmail.com
Ebrill 8fed— 11eg	Penwythnos Gwyllo Adar Ynys Sgomer	Ymunwch â Dave Astins o West Coast Birdwatching wrth ichi dreulio tridiau yn chwilio am y radar gorau sydd gan Sgomer i'w chynig.	01656 724100 islands@welshwildlife.org
Ebrill 10fed 19:30	Ffyngau yn Sir Benfro	Bydd Grŵp Canol Sir Benfro yn cynnal sgwrs ar Ffyngau yn Sir Benfro dan arweiniad David Harries, Cofnodydd Ffyngau yn y Sir. Canolfan Gymunedol Cashfield, Hwlfordd	John Steer 01646 278966 biojohn@tiscali.co.uk



Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Pentref Gwyliau Parc
Cenedlaethol Bluestone



Ymddiriedolaeth Afonydd
Sir Benfro



Cymdeithas y
Tirfeddianwyr



Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro



Undeb Amaethwyr Cymru



Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros
Fenter a Datblygu



Grwp Ymgynghorol Ffermio a
Bywyd Gwylt



Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Cymru



Cadwch Gymru'n Daclys



Y Gymdeithas Frenhinol er
Gwarchod Adar



Undeb Cenedlaethol
yr Amaethwyr – Cymru



Ymddiriedolaeth Bywyd
Gwylt De a Gorrlewin Cymru



Cyfoeth Naturiol Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymdeithas Gymunedol
Gyfyngedig 21C Sir Benfro



Canolfan Wybodaeth
Bioamrywiaeth Gorrlewin Cymru



Cyngor Sir Penfro

